# Rachel Stewart -
# *I'r wawr ac ymlaen at yfory / Into the dawn and on to tomorrow*

Mae Rachel yn byw ar dyddyn bychan yn Llysfaen ger Bae Colwyn ac mae wedi bod yn arbrofi gyda gwahanol gyfryngau paent ers pan yn blentyn. Enillodd Ddiploma Cenedlaethol BTEC mewn Celf a Dylunio yng Ngholeg Celf Bangor, lle cafodd ei dysgu gan Lesley Jones a Peter Prendergast. Cyn cael ei thri phlentyn bu'n gweithio ym musnes pensaernïol ei thad gan ddilyn cwrs diploma serameg yng Ngholeg Llandrillo, cyn defnyddio'r cyfrwng yna i wneud gemwaith Raku. Mae hi bellach wedi dychwelyd at arlunio a phaentio.

Mae ei gwaith yn dangos ei chariad at y rhan hyfryd hon o Gymru a gafodd ei feithrin yn ystod llawer o wyliau plentyndod yn gwersylla ar Benrhyn Llŷn. Mae'n mwynhau paentio golygfeydd arfordirol a gwledig gan gynnwys ei phraidd o ddefaid a da byw eraill.

Mae arddangosfa newydd Rachel *I'r wawr ac ymlaen at yfory* yn ymwneud ag 'amser' ac mae'n olyniaeth anadferadwy, ni all neb na dim ei atal. Mae'r dyddiau'n dal i ddod, wythnosau, misoedd a thymhorau yn treiglo gan newid cefn gwlad a glannau môr Penrhyn Llŷn yn barhaol. Gall y lliwiau fod yn dawel neu'n llachar ac mae hi'n cael ei thynnu at geisio dal yr eiliadau hyfryd, tywyll neu ddramatig hyn. Bore cynnar, niwlog gyda diwrnod braf o haf i ddilyn neu nosi oer sydd ar ddod, gyda'r holl obaith am fore rhewllyd pefriog yfory.

Mae Cynllun Casglu – cynllun prynu di-log Cyngor Celfyddydau Cymru - ar gael ar gyfer unrhyw bryniant o waith Rachel Stewart - holwch am fanylion wrth y ddesg.

Rachel lives on a small-holding in Llysfaen near Colwyn Bay and has been experimenting with different mediums of paint since she was a child. She gained a BTEC National Diploma in Art and Design at Bangor Art College, where she was taught by Lesley Jones and Peter Prendergast. Before having her three children she worked in her father's architectural business and undertook a ceramics diploma course at Llandrillo College and used this medium to make Raku jewellery. She has now returned to drawing and painting.

Her work demonstrates her love for this beautiful part of Wales which was nurtured during many childhood camping visits to the Llŷn Peninsula. She enjoys painting coastal and rural scenes including her flock of sheep and other livestock.

Rachel's new exhibition *Into the dawn and on to tomorrow* is all about 'time' and it's irreversible succession. No one or anything can halt it. The days just keep coming, weeks, months and seasons rolling by, changing the countryside and seaside of Pen Llŷn. The colours can be muted or bright and she is drawn to trying to capture these beautiful, gloomy or dramatic moments. A misty early morning with a bright summer day to follow or an impending chilly dusk, with all the hope for a sparkling frosty morning tomorrow.

*Collectorplan*, the Arts Council of Wales' interest free credit scheme is available on all purchases of work by Rachel Stewart – please ask for details at the desk.